

Cwestiynau Cyffredin

Dyma'r Cwestiynau Cyffredin o'r digwyddiad dysgu proffesiynol ar 26 Ionawr 2023.

Sylwadau Cyffredinol

A allwn gael eglurhad ynglŷn â dyddiadau cofrestru a therfynau amser ar gyfer uwchlwytho i IAMIS?

Dyma'r dyddiadau allweddol:

Dyddiad cau cofrestru: 21 Chwefror 2023
Mawrth 2023

Diwygiadau terfynol: 18

Ffioedd hwyr yn daladwy o: 19 Mawrth 2023 Ffioedd hwyr iawn yn daladwy o: 19 Ebrill 2023

Dyddiad cau ar gyfer uwchlwytho tasgau i IAMIS: 15 Mai 2023

Beth fydd y ffiniau graddau ar gyfer 2023?

Does dim modd gosod ffiniau graddau tan ar ôl i gyfres arholiadau gael ei chwblhau, felly does gennym ni ddim gwybodaeth eto am gyfres haf 2023.

A fydd gwerslyfr neu ganllaw adolygu?

Nid oes unrhyw gyhoeddwy wedi mynegi diddordeb mewn cynhyrchu gwerslyfr. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r trefnwyr gwybodaeth fel adnoddau adolygu rhagorol.

A oes cynlluniau i gynhyrchu mwy o drefnwyr gwybodaeth?

Ar hyn o bryd, mae'r trefnwyr gwybodaeth yn ymdrin ag unedau 2, 3, 4 a 5, a rhywfaint o uned 1. Gwnaethom ddewis defnyddio ein cyllid i gynhyrchu trefnwyr gwybodaeth lle roedd llai o wybodaeth ar gael, gan yr ymdrinnir a chynnwys uned 1 yn y rhan fwyaf o werslyfrau bioleg generig. Os daw mwy o gyllid ar gyfer adnoddau, byddwn yn gobeithio llenwi'r bylchau yn y set ar gyfer uned 1.

Uned 2

A yw'r asesiad cyfredol ar gael ar y wefan ddiogel?

Ydy, mae ar gael yn yr adran deunyddiau asesu di-arholiad.

Uned 3

Pa nifer o gwestiynau sy'n gwneud y data'n ddigonol?

Ar gyfer band uchaf rydym yn argymhell o leiaf 15 ymateb. Does dim nifer penodol o gwestiynau y dylid eu gofyn, ond bydd gormod o gwestiynau yn peri i'r data lethu'r ymgeiswyr. Dylai ffocws cwestiynau fod yn ôl eu hymchwiliad penodol.

A yw graffiau yn rhan o dasg 3?

Ydyn, dylai ymgeiswyr ymdrin â graffiau yn nhasg 3, fodd bynnag mae rhai ymgeiswyr yn dewis rhoi graffiau mewn rhannau eraill o'u gwaith ysgrifennu hefyd. Dylai ymgeiswyr ddefnyddio taflen grynodedig y dysgwr i sicrhau eu bod yn ymdrin â'r Amcanion Asesu sydd eu hangen ar gyfer pob tasg.

A oes angen ymdrin â'r holl ddulliau samplu yn fanwl yn yr asesiad?

Dim ond y dull y maen nhw'n mynd i'w ddefnyddio y mae angen i ymgeiswyr ymdrin yn fanwl ag o.

Yn flaenorol, rydym wedi cyflwyno gwaith ar Google Sheets, gyda fformiwlâu wedi'u hargraffu a'r gwaith cyfrifo wedi'i ddangos. Mae hyn wedi cael ei dderbyn fel tystiolaeth yn y gorffennol – a fydd yn dal i gael ei dderbyn yn y dyfodol?

Ar yr amod bod y gwaith cyfrifo yn cael ei ddangos, gellir defnyddio hyn fel tystiolaeth

Oes angen i graffiau gael eu lluniadu â llaw?

Nag oes, fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio TGCh, gan nad yw graddfeydd a labelu weithiau yn ôl y disgwyl.

A all ymgeiswyr barhau i gyrraedd band canol os yw eu cyfrifiad chi sgwâr terfynol yn anghywir?

Gallant, rydyn ni hefyd yn chwilio am gymedrau a gwyriad safonol ar gyfer band 2.

Faint o dystiolaeth o gyfrifo sydd ei angen ar gyfer MPA4.1?

Mae angen i ymgeiswyr gynnal prawf ystadegol yn gywir er mwyn cyrraedd band 3. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio rhaglen ar-lein neu becyn ystadegol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod ymgeiswyr yn dangos eu gwaith cyfrifo o leiaf unwaith i sicrhau eu bod yn cyrraedd MPA4.4.

Uned 4

A oes angen ymdrin â'r holl MPA sydd ynghlwm wrth y dasg hon ym mhob taflen?

Oes, mae angen gwneud hyn, heblaw am MPA2.3. Dim ond ar gyfer yr uned gwrthficrobau y dylid ymdrin â MPA2.3.

A yw mynediad i'r we yn cael ei ganiatáu?

Ydy, fodd bynnag, anogwch ymgeiswyr i beidio â gwastraffu eu hamser, yn cynnwys ar fanylion amherthnasol.

A oes angen i wrthfotig dargedu organ/system benodol?

Mae effeithiau gwrthfotigau yn gymhleth ac yn systemig. Dylai fod cydnabyddiaeth o hyn yn y daflen.

O ran MPA2.2 gall ymgeiswyr ddatgan / disgrifio sut mae'r cyffur gwrthficrobaidd yn cael ei ddefnyddio yn erbyn cyflwr penodol sy'n effeithio ar un (neu fwy) o systemau'r corff o'r fanyleb.

Oes rhestr o gyffuriau?

Rhestrir enghreifftiau o'r grwpiau o gyffuriau y gellid eu hastudio yn y fanyleb, fodd bynnag, nid yw hwn yn gynhwysfawr. Nid ydym yn rhoi enwau masnachu cyffuriau penodol.

A yw'n bosibl i'r garfan gyfan gyflwyno'r un pedwar cyffur?

Ydy, fodd bynnag, mae llawer o ganolfannau'n dewis caniatáu rhywfaint o ryddid i'r ymgeiswyr wrth ddewis eu cyffuriau eu hunain (o fewn terfynau'r fanyleb).

Os yw eu hymdriniaeth o un MPA (e.e., MPA2.2) yn wael ar gyfer un o'u taflenni, a oes modd gwneud iawn am hyn ar y taflenni eraill?

Dylid rhoi marc ffit orau. E.e., os ystyrir bod pob taflen arall yn y band uchaf, ond bod un daflen yn y band gwaelod taflen, yna gellid dyfarnu 4 neu 5 marc, ond nid 6.